

# Walsingham Support Community Solutions

## Clwb Cinio Cyfeillion Forge Fach

Mae Canolfan Gymunedol Forge Fach yng Nghlydach, Abertawe yn ganolbwynt cymunedol sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau i drigolion lleol. Mae'r ganolfan yn cael ei rhedeg gan Walsingham Support Community Solutions (WSCS) ac mae'n rhoi pwyslais ar wasanaethau sy'n helpu i leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, sesiynau celf a chrefft a chlwb plant yn ystod yr haf.

Er mwyn gwneud mwy i leddfu unigrwydd ac arwahanrwydd yn ardal Cwm Tawe, cynhaliodd WSCS gynllun peilot clwb cinio llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2018. Er bod y cynllun peilot yn llwyddiant, roedd diffyg cludiant hygyrch yn golygu na allai cymaint o bobl leol â phosibl fynychu, yn enwedig pobl sydd ag anabledd a rhai sy'n byw ychydig filltiroedd o'r ganolfan.

Wedi hynny, cysylltodd WSCS â thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru y CTA ac ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Age Cymru Bae Abertawe a Henoed Clydach i drafod opsiynau cyllido posibl a fyddai'n galluogi pawb yn y gymuned a fyddai'n dymuno mynychu'r clwb cinio i wneud hynny heb gael eu rhwystro gan ddiffyg cludiant.

Yn dilyn cyfarfod cychwynnol, penderfynwyd y byddai tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn amlinellu'r costau, yn datblygu cynnig ac yn ysgrifennu cais am arian i gynllun Arian i Bawb Cronfa'r Loteri Fawr i alluogi WSCS a'u partneriaid i ddarparu clwb cinio wythnosol, gan gynnwys arian i dalu am wasanaeth gan ddarparwyr cludiant cymunedol lleol.

Ym mis Mawrth 2019, cymeradwywyd cyllid gan Arian i Bawb gan roi £10,000 i WSCS i gynnal prosiect clwb cinio am flwyddyn. Ers hynny mae clwb cinio Cyfeillion Forge Fach wedi helpu llawer o bobl hŷn i dorri allan o'r cylch o unigrwydd ac arwahanrwydd y mae llawer o bobl yr ardal yn canfod eu hunain ynddo, yn arbennig rhai sydd wedi colli partner neu sydd wedi'u cyfyngu gan salwch neu anawsterau symud. Mae'r prosiect wedi gwneud llawer i wella lles pobl hŷn ac wedi galluogi pobl i ffurfio cyfeillgarwch sy'n parhau, wedi dod â phobl ynghyd ac wedi meithrin perthnasoedd cryfach ar draws y gymuned.

Hyd at fis Medi 2019, roedd dros 170 o bobl hŷn wedi cael budd o fynychu'r clwb cinio a gweithgareddau cysylltiedig sydd wedi'u hymgorffori yn y prosiect, gan gynnwys dawns de boblogaidd iawn. Mae cynnwys cludiant cymunedol yn y prosiect, trwy logi gwasanaeth darparwyr cludiant cymunedol lleol, megis Cludiant Cymunedol Abertawe wedi helpu i wneud y prosiect hwn yn llwyddiant.

"Mae'r prosiect yn golygu llawer iawn i'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â'r clwb cinio," meddai Cyfarwyddwr WSCS, Clare Bugler. "Mae'n destun balchder mawr i mi fod WSCS, trwy weithio mewn partneriaeth â thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru, wedi gallu sicrhau'r cyllid i sefydlu'r clwb cinio a dod â hapusrwydd a mwynhad i lawer o bobl hŷn yr ardal bob wythnos ac rydyn ni hyd yn oed wedi gallu ymestyn y clwb cinio i 2/3 gwaith yr wythnos wrth i'r galw barhau i gynyddu.

"Mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r bobl hŷn ac mae llawer yn dychwelyd atom ac yn dod draw bob wythnos oherwydd eu bod yn mwynhau cwmni'r bobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y gwirfoddolwyr ac aelodau staff. Mae'r clwb cinio yn rhoi cyfle i bobl hŷn fynd allan o'r tŷ a siarad â phobl ac mae'r prosiect wir yn rhoi rhywbeth iddyn nhw edrych ymlaen ato bob wythnos".

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.**